COLEG TREFECA

Elusen gofrestredig rhif 258456

Nodiadau ar gyfer Arweinwyr & Amodau Cofrestru ar gyfer ymweliadau UNDYDD

Diolch i chi am drefnu ymweld â Choleg Trefeca.
Pan fyddwch yn cyrraedd, fe gewch groeso gan y Warden ar ddyletswydd, a fydd yn falch o adrodd rhywfaint o hanes Trefeca a rhannu unrhyw wybodaeth fydd ei hangen arnoch ar gyfer y diwrnod.
Rydym yn anelu at beidio â chael gormod o "reolau", ond gobeithiwn y bydd y nodiadau hyn o gymorth i chi wrth arwain eich grŵp. Fe amlinellir ein prisiau cyfredol ar y ffurflen fwcio amgaeëdig.

Cyfleusterau

Os oes grŵp arall wedi llogi Coleg Trefeca ar yr un dyddiad â chithau, yna fe drafodwn â chi ymlaen llaw i sicrhau fod gan bob grŵp y cyfleusterau sydd eu hangen. Fe ddeallwch os bydd yna grŵp preswyl yn y ganolfan, y byddant yn cael y flaenoriaeth ar gyfer rhai o'r cyfleusterau.

Mae'r **ystafelloedd cyfarfod** canlynol ar gael:

- Mae lle i 27 eistedd yn y **Lolfa** ynghanol y Coleg, ac mae lle i hyd at 40 gyda chadeiriau ychwanegol. Mae yna deledu (ar gyfer gwylio fideos – nid oes iddo erial allanol), system sain C-Dd/casét/radio, a phiano (ar gyfer canwyr profiadol yn unig). Mae'r Lolfa yn hygyrch i bawb, gan gynnwys y sawl sy'n defnyddio cadair olwyn.
- Cyrhaeddir **Ystafell Defynnog** trwy ddringo deg gris safon hygyrch. Gwaetha'r modd, ni ellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn. Gellir ei defnyddio fel ystafell gemau, neu yn ystafell gynadledda gyda lle i hyd at 60 o bobl. Os dymunwch ddefnyddio'r offer gemau (tenis bwrdd, snwcer, sgitls a bowlio dan do, ayb), fe ofynnir i arweinydd y grŵp arwyddo amdanynt ar ddechrau'r diwrnod a'u harwyddo yn ôl ar ei ddiwedd, a bod yn gyfrifol am ofalu amdanynt. Fe'ch cynghorir i ddychwelyd y ffyn snwcer i'r swyddfa ar ôl eu defnyddio – tueddant i dorri'n rhwydd!
- Lleolir y **Llyfrgell** ger yr Ystafell Fwyta, ac mae'n hygyrch i bawb. Mae lle i 12 eistedd mewn cadeiriau esmwyth a hyd at 20 gyda chadeiriau ychwanegol. Yn y llyfrgell ceir amrywiaeth o lyfrau, fideos, tapiau a phamffledi Cymraeg a Saesneg. Ceir yno hefyd ddetholiad o gyfnodolion cyfredol. Croeso i chi bori yn y rhain. Os hoffech fenthyg rhywbeth, yna gofynnwch i'r Warden ar ddyletswydd yn gyntaf. Lleolir yma hefyd deledu gyda fideo ac erial allanol.
- Mae'r **Capel Bach** ochr draw i Lôn y Coleg. Mae'n hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae lle i 24 eistedd ar y meinciau. Mae lle i hyd at 40 gyda chadeiriau neu glustogau ar lawr.
- Mae lle i 20 eistedd yn gyfforddus yn lolfa'r **Fynedfa**. Mae'r ardal hon yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Darperir y cyfleusterau ychwanegol canlynol:

- Ceir nifer o gyfieithiadau Cymraeg a Saesneg o'r **Beibl** yn y Lolfa a'r Llyfrgell. Cedwir ein prif lyfrau emynau, *Caneuon Ffydd* a *BBC Songs of Praise*, yn y

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com

Lolfa, gyda chopïau ychwanegol yn y cwpwrdd y tu allan i Ystafell Defynnog, sydd hefyd yn cynnwys detholiad eang o lyfrau emynau eraill yn y ddwy iaith.

- Gellir darparu **setiau cymundeb** (yn cynnwys platiau, cwpan fawr a/neu cwpannau unigol). Gallwn ddarparu bara a gwin di-alcohol neu gydag alcohol. Cedwir nifer o drefnau gwasanaeth dwyieithog yn y cwpwrdd y tu allan i Ystafell Defynnog.
- **Offerynnau cerddorol:** Ceir piano ar gyfer canwyr profiadol yn unig yn y Lolfa. Mae piano i'w "chwarae" yn Ystafell Defynnog. Nid oes offeryn yn y Capel Bach, ond mae croeso i chi ddod ag un gyda chi.
- Mae gennym **daflunydd dros ysgwydd (OHP) a sgrîn**. Darperwch eich tryloywderau eich hunan, os gwelwch yn dda. Mae **taflunydd sleidiau carousel** a hen daflunydd ar gyfer sleidiau a stribedi ffilm ar gael i'w benthyg – gofynnwch i'r Warden.
- Mae **bwrdd fflip siart** hefyd yn y Brif Lolfa. Dewch â'ch papur eich hun.
- Yn ogystal â'r system sain yn y Lolfa, gellir benthyg **peiriant C-Dd/casét symudol**.
- **Llungopïo**. Rydym yn fodlon copïo taflenni ac erthyglau byrion ar gais, o fewn y gyfraith hawlfraint. Y gost yw 10c y dudalen (15c os defnyddir y ddwy ochr).
- Gellir gosod **cyfarpar radio cylch clywed neu gyfieithu** mewn unrhyw ystafell. Mae yna hefyd gylch clywed gyda gwifrau yn y Brif Lolfa ac Ystafell Defynnog. Gofynnwch am y cyfleusterau hyn ymlaen llaw, os gwelwch yn dda, gan ei bod yn cymryd peth amser i'w gosod yn gywir.
- Lleolir y **tai bach** sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn ar lawr isaf yr adeilad preswyl a thu allan i'r fynedfa gefn, ger yr Ystafell Fwyta. Lleolir toiledau eraill yn y fynedfa ac ar bwys Ystafell Defynnog.
- Lleolir y **siop** gyferbyn â'r Ystafell Fwyta, ac mae'n hygyrch i bawb. Fe werthir llyfrau a chardiau Cymraeg a Saesneg; cardiau post, stampiau a nwyddau Trefeca; crochenwaith, cardiau a chanhwyllau lleol; crysau T a chrysau chwys; losin, siocled a diodydd ysgafn; a nwyddau Traidcraft. Fe agorir y siop fel arfer yn union cyn ac ar ôl prydau bwyd, ac ar adegau eraill trwy drefniant. Mae croeso i chi bori ar unrhyw adeg, ond os gwelwch yn dda peidiwch â mynd â nwyddau oddi yno pan nad oes neb ar gael i weini i chi.
- Lleolir **Amgueddfa Howell Harris** ar ben draw Ystafell Defynnog. Mae'n rhaid dringo cyfanswm o ddeg o risiau hygyrch er mwyn cyrraedd yno, ac ni ellir ei chyrraedd mewn cadair olwyn, gwaetha'r modd. Mae'r amgueddfa yn adrodd hanes hynod Howell Harris (a anwyd yma ym 1714 ac a fu farw yma ym 1773), y Methodist cyntaf, a hanes y 'Teulu' Cristionogol a sefydlwyd ganddo yma ym 1752. Gellir trefnu taith tywys i'r Amgueddfa ac i gartref Howell Harris (sydd bellach yn llety i'r Warden). Mae yna un gris i lawr i'r tþ.
- Ceir **taflenni** am weithgareddau Trefeca ac atyniadau lleol eraill wrth ddesg y dderbynfa. Mae croeso i chi gymryd y rhai sydd o ddiddordeb i chi. Dangosir gwybodaeth ychwanegol ar yr hysbysfwrdd ac yn y blwch gerllaw. Bydd y Warden ar ddyletswydd yn falch o ddweud mwy wrthych.
- Mae **gerddi'r Coleg** ar agor i ymwelwyr ac i drigolion lleol yn ystod oriau dydd. Cedwir offer bowlio, croquet a golff yn y fynedfa. Dychwelwch hwy i'r blwch ar ôl eu defnyddio, os gwelwch yn dda. Gellir cael peli golff sbâr o'r dderbynfa.

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com

Prydau bwyd

Gweinir prydau bwyd yn yr Ystafell Fwyta, ar y llawr isaf yng nghefn yr adeilad. Ceir mynediad i gadeiriau olwyn trwy'r drws allanol yng nghefn y Coleg; mae lifft gadair o'r cyntedd yn gymorth i bobl eraill a chanddynt anawsterau symud. Mae lle i 36 fwyta yn yr Ystafell Fwyta a 2 gadair uchel. Gellir gosod hyd at 16 lle ychwanegol yn y Llyfrgell a bod angen.

Yr amserau arferol ar gyfer y prydau yw:

12.45pm Cinio
6.00pm Swper

Os hoffech i'ch prydau gael eu gweini ar amserau gwahanol i'r uchod, yna cysylltwch â ni ar eich cyfle cyntaf i drafod y posibiliadau. Cofiwch mai nifer fach sy'n gweithio yn y gegin, ac ni allwn fel arfer ddisgwyl iddynt weithio y tu hwnt i'w horiau arferol.

Cenir cloch ychydig funudau cyn gweini pob pryd. Ceisiwch fod yn brydlon i'r prydau. **Noder os y gofynnwch i ni aildwymo bwyd ar gyfer hwyr-ddyfodiaid, fe weinir y bwyd hwnnw ar eich risg eich hunain. Rydym yn argymell yn gryf fod yr holl grŵp yn cyd-fwyta**.

Darperir **coffi'r bore (gyda bisgedi cartref) a the prynhawn (gyda theisen gartref)** yn unol â'r trefniant a wneir wrth i chi fwcio.

Mae'r ffurflen fwcio yn cynnig dewis o fathau gwahanol o bryd bwyd. Os hoffech drafod y fwydlen yn fanwl, yna ffoniwch ni yn ddigon pell ymlaen llaw. Noder na chynigir dewis i'r prif gwrs, ag eithrio trwy drefniant ymlaen llaw ar gyfer y sawl sydd â diet arbennig. Cyn belled ag y bo modd, gweinir bwyd sy'n rhydd o elfennau wedi eu newid yn genetig. Ni allwn warantu nad oes yna olion cnau mewn ambell bryd. **Gofynnir i chi ein hysbysu am bob aelod o'ch grŵp sydd ag angen bwydlen arbennig neu sy'n dioddef gan alergedd.**

Rydym yn mawr werthfawrogi eich cymorth wrth weini bwyd o'r gegin i'r bordydd, wrth glirio ar ôl pob saig, ac wrth osod y bordydd ar gyfer y pryd nesaf. Dilynwch gyfarwyddiadau'r Warden ar ddyletswydd neu staff y gegin.

Talu

Casglwch arian gan aelodau'ch grŵp, yn unol â'r pris a drefnwyd ymlaen llaw, cyn neu wrth iddynt gyrraedd. Dylid gwneud sieciau yn daladwy i **Coleg Trefeca**, a rhaid eu tynnu ar gyfrif mewn arian Prydeinig. Ni allwn dderbyn cardiau switsh, cardiau credyd na chardiau didynnu. Mae gweddill eich tâl (wedi talu'r blaendal) yn ddyledus pan gyrhaeddwch Drefeca. **N**i allwn gynnig cyfleusterau i dalu'ch bil yn hwyr.

Cysylltwch â ni **ar unwaith** os y teimlwch fod y pris neu unrhyw drefniant arall yn debyg o achosi anhawster i'ch grŵp. Mewn tegwch â phawb, ni allwn ail-drafod ein prisiau ar ôl i chi gyrraedd.

Os dymunwch roi **rhodd i'r staff**, yna fe ofynnwn i chi drefnu casgliad. Am resymau cyfreithiol, fe ofynnwn i chi roi'r rhodd i'r staff yn uniongyrchol mewn arian parod.

Ysmygu

Noder **na chaniateir ysmygu** o fewn yr adeilad, gan i synwyryddion mwg gael eu gosod ymhob ystafell i gwrdd â gofynion y rheolau tân, a hefyd er tegwch i fwyafrif llethol ein hymwelwyr, nad ydynt yn ysmygu.

Anifeiliaid anwes

Gwaetha'r modd, cymerwyd mantais gan ambell ymwelydd yn y gorffennol ar ein croeso i anifeiliaid anwes, a **ni** allwn bellach groesawu anifeiliaid anwes (ag eithrio cŵn tywys) i'r adeilad. Gall cŵn ddefnyddio'r gerddi dim ond gyda chaniatâd ymlaen

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com

llaw gan y Warden. Mae hyn oherwydd y perygl i iechyd ymwelwyr eraill, yn enwedig plant, os dônt i gysylltiad â baw cŵn.

Diogelwch tân

Uwchraddiwyd y systemau diogelwch tân i gwrdd â'r holl safonau diweddaraf yn 2001. Fe fydd y Warden ar ddyletswydd yn rhoi cyfarwyddyd os digwydd argyfwng.
Sicrhewch fod pob aelod o'ch grŵp yn arwyddo Llyfr yr Ymwelwyr wrth gyrraedd. Fe ddefnyddir hwn i alw'r enwau os bydd angen.
Nodir pob ffordd at allanfa gan symbol rhywun yn rhedeg. Mae'r drysau i brif fynedfa (fodern) y Coleg yn agor o'r tu mewn trwy wasgu'r botwm gwyn ar y postyn ar ochr dde'r drws (ar bwys y lifft i gadeiriau olwyn). Os digwydd argyfwng, fe fydd yr allanfa yn dal i agor. Os ceir anhawster, bydd y Warden ar ddyletswydd yn defnyddio allwedd arbennig i sicrhau y gallwch fynd allan yn ddiogel. Dylid torri'r blwch gwydr i gael ffordd allan mewn argyfwng **yn unig**. Gellir hefyd ymadael o'r allanfa ar ochr yr ardd trwy ddefnyddio'r allwedd ag arno labed mawr glas.

Cymorth Cyntaf

Cedwir **blwch Cymorth Cyntaf** wrth ddesg y dderbynfa. Nid yw'n cynnwys unrhyw feddyginiaeth nac eli, gan nad yw cymwysterau Cymorth Cyntaf ein staff yn caniatáu iddynt roi meddyginiaeth i neb. Dylid rhoi gwybod i'r Warden ar ddyletswydd mor fuan ag y bo modd am unrhyw **ddamweiniau** a ddigwydd yn y Coleg, hyd yn oed os nad oes angen triniaeth. Mae yna Lyfr Damweiniau wrth ddesg y dderbynfa, a bydd y Warden yn eich helpu i'w lenwi.

Diogelwch ac atebolrwydd

Noder bod **Capel Coffa Howell Harris** a'r rhannau hynny o'r gerddi a amgylchynir gan ffens **yn waharddedig** i ymwelwyr.
Noder na all Eglwys Bresbyteraidd Cymru dderbyn unrhyw **gyfrifoldeb** tu hwnt i'r hyn sy'n statudol am ddiogelwch ymwelwyr na'u heiddo tra'u bod yng Ngholeg Trefeca. Nid yw yswiriant Coleg Trefeca yn gymwys ar gyfer unrhyw weithgaredd gan ymwelwyr y tu hwnt i ffiniau'r Coleg, nag ar gyfer unrhyw weithgaredd o fewn y Coleg na chafodd ganiatâd penodol y Warden. Eich cyfrifoldeb chi fel arweinydd y grŵp yw trefnu unrhyw yswiriant y credwch ei fod angen arnoch.
Ni all Coleg Trefeca fod yn gyfrifol am unrhyw gamau cyfreithiol a gymerir o ganlyniad i gynnwys eich rhaglen, oni bai ei bod dan arweiniad aelod o'n staff. Dylech fod yn ymwybodol yn enwedig am y gyfraith am wahaniaethu ar sail hil, rhyw neu anabledd, ac am y gyfraith parthed enllib a malais.

Diogelwch plant, pobl ifainc ac oedolion bregus

Os ydych yn trefnu gweithgarwch ar gyfer plant neu bobl ifainc, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn gwybod am delerau'r Ddeddf Plant a deddfau eraill.

Yn 2001 fe fabwysiadodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru Bolisi Diogelwch Plant, sydd yn berthnasol hefyd i oedolion bregus. Dyma'r Datganiad Polisi:

Polisi Eglwys Bresbyteraidd Cymru yw diogelu lles pob plentyn ac unigolyn ifanc drwy'i amddiffyn rhag esgeulustod, a rhag niwed corfforol, rhywiol ac emosiynol. Fel Eglwys yr ydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddiogelu lles ein haelodau a'r rhai a ymddiriedir i'n gofal. Bydd aelodau'r Eglwys, gweithwyr cyflog a gweithwyr gwirfoddol bob amser yn dangos parch at hawliau plant a dealltwriaeth ohonynt, gan hybu ethos o wrando ar blant ac o sicrhau eu diogelwch a'u lles, gan ymddwyn mewn modd a adlewyrcho egwyddorion yr Eglwys Gristnogol.

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com

Mae gweithwyr cyflog Coleg Trefeca wedi derbyn hyfforddiant yn oblygiadau ymarferol y polisi hwn. Ond nid ydym yn cyflogi gweithwyr plant a ieuenctid hyfforddedig, a rydym yn disgwyl i bob grŵp sy'n cynnwys plant, pobl ifainc neu oedolion bregus wneud eu trefniadau eu hunain am ofalu am aelodau'r grŵp.

- Mae'r rhan fwyaf o enwadau a chymdeithasau sy'n llogi Coleg Trefeca eisoes wedi mabwysiadu polisi tebyg, a'ch **cyfrifoldeb chi, arweinydd y grŵp**, fydd sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r polisi perthnasol a'i oblygiadau.

- Dylech dderbyn ffurflen gofrestru wedi ei harwyddo ar ran pob plentyn, person ifanc neu oedolyn hawdd ei niweidio sy'n mynychu heb eu rhieni neu warcheidwaid, a dylai'r ffurflen gynnwys caniatâd i chi drefnu triniaeth feddygol mewn achos brys. Dylai fod gennych hefyd gan bob oedolyn fydd â mynediad sylweddol a heb oruchwyliaeth i blant, pobl ifainc ac oedolion bregus ar wahân i'w plant eu hunain yn ystod eich arhosiad ddatganiad wedi'i arwyddo yn cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw record droseddol berthnasol. Dylai fod gennych hefyd o leiaf un geirda – gorau oll os oes dau – ar gyfer pob oedolyn perthnasol. Ar ôl Ebrill 2003, dylid gwirio'r datganiad hwn trwy'r Biwro Cofnodion Troseddol gan ddefnyddio un o'r cyrff ymbarél. Cewch fwy o fanylion gan eich enwad neu gymdeithas. Dylech ganiatáu digon o amser i gyflawni hyn.

- Rhaid goruchwylio plant, pobl ifainc ac unrhyw ymwelwyr eraill all fod angen goruchwyliaeth gan oedolyn cyfrifol **drwy'r amser**, tu fewn a'r tu allan i'r adeilad**. Eich cyfrifoldeb chi, arweinydd y grŵp, yw sicrhau fod hyn yn digwydd.** Os oes unrhyw broblem tra eich bod yn aros gyda ni, fe fyddwn yn troi atoch chi yn y lle cyntaf. **Trwy arwyddo'r ffurflen llogi, rydych yn cytuno i dderbyn cyfrifoldeb am drefnu a monitro goruchwyliaeth y plant, pobl ifainc ac oedolion bregus yn eich grŵp.**

- Pan fo rhieni neu warcheidwaid yn dod gyda'u plant eu hunain, byddem yn disgwyl i rieni a gwarcheidwaid ofalu am eu plant eu hunain pan nad ydynt yng ngofal arweinydd sydd wedi'i hyfforddi a'i gofrestru'n briodol. Dylech esbonio hyn i bob rhiant a gwarcheidwad.

- Nid yw'n bosibl gweld pob rhan o'r gerddi o du fewn i'r adeilad. Nid oes ffens rhwng y gerddi a'r heol, ac mae'r gerddi ar agor i'r cyhoedd yn ystod oriau dydd. Felly, pan fo plant, pobl ifainc neu oedolion bregus tu allan, mae'n rhaid darparu goruchwyliaeth y tu allan hefyd.

- Mae'n arbennig o bwysig trefnu goruchwyliaeth pan fo un neu fwy o unigolion yn ymadael â'r brif garfan – er enghraifft, drwy adael y ford yn gynnar adeg bwyd neu fynd i'r tþ bach.

Mae rhieni ac arweinydd y grŵp yn gyfrifol hefyd am unrhyw beth a dorrir neu a ddifrodir gan eich plant, boed yn eiddo i'r Coleg, trigolion lleol neu ymwelwyr eraill.

.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am unrhyw agwedd ar eich ymweliad, yna gofynnwch, da chi. Rydym yma i'ch helpu.

Trevor Lewis, Mair Jones, Wardeniaid

Diweddarwyd 21.09.02

bookings/nodiadauUNDYDD/0902

PDF created with FinePrint pdfFactory trial version http://www.fineprint.com